

# CWLWM

Mudiad Chwiorydd  
Undeb Bedyddwyr Cymru

**MAI**  
**2021**

Rhif 65

Golygydd:  
Einir Jones

Pris 50c





*Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru*

*Cynnwys*

*Golygyddol*

*Ffarwelio gyda Menna Jones, Rheolwraig Swyddfa UBC*

*Llawenydd a Thristwch yng Nglyn Nest*

*Miss Einwen Jones*

*Cyfnod Clo yn Llundain*

*Beth oedd Enw. . .*

*Fy Hoff Emyn*

*Gweddi*

*Oedfa Glyn Nest yn Y Tabernacl Caerdydd*

*O Batagonia i Langyfelach*

*Barddoniaeth: Cerddi Betty Jones*

*Rysait Browniaid*

*Adroddiad yr Ysgrifennydd*



# Golygyddol

Numeri 11,5

Mae nhw wedi bod yn dweud na fydd pethau fyth yr un fath, ond mae sawl un yn edrych yn ôl i'r gorffennol gyda hiraeth yn y llygaid sydd dan sbectols gyda gwydrau lliw-rhosyn pinc, pert iddynt. Dyddiau capeli llawn gynt ie? Na – rhai chwarter llawn a lot llai na hynny mewn gwirionedd! Dyddiau pan oedd pobl yn gwybod eu Beiblau – *Sgersli Bilif* ys dwedai Ifanc y Tryc, fe beidiodd y dyddiau hynny i gapelwyr hyd yn oed cyn ac yn y saithdegau! Dyddiau cymanfaoedd canu 5,000 Voices? Galeri lawn a chôr yn tiwnio a morio? Yn y blynyddoedd diwethaf hyn fe aethon ni'n brin iawn o faswyr – heb sôn am altos ac roedd capeli'r cymanfaoedd yn drichwarter gwag a dweud y gwir. Er holl driciau cameryddol Dechrau Canu fe sylwoch mae'n siŵr bod lot llai o gynulliad mewn capeli a ffilmwyd cyn y Pandemig nag a oedd yn yr hen raglenni ymddangosodd yn wreiddiol nôl yn y ganrif ddiwethaf.

Fel hyn yn union roedd hi pan oedd yr hen genedl yn yr anialwch wedi gadael Tŷ'r Caethiwed. Beth oedden nhw yn dyheu amdano oedd ciwcymbyrs a garleg a melons eu hatgofion golygedig o'r Aifft! Roedden nhw wedi dewis anghofio am fod yn gaethweision di-barch a di-dâl yn codi Pithom a Rameses yn y gwres tanbaid dan lach y chwip. Roedden nhw wedi dewis anghofio am yr eisiau bwyd a'r blinder dibendraw ac am Pharao yn lladd eu plant. Dewis ddarnau - selected memories - oedd ganddyn nhw, yn bwriadol-anghofio'r rhannau diflas a diobaith. Nawr, pan fydd rhai capeli yn dechrau agor eto fe fydd sawl un yn syweddoli nad yw Gwlad y Ciwcymbyrs yn bodoli. Llai fyth fydd yn y capel! Dim cymanfa! Dim Ysgol Sul! Oedfa fyrrach! Dim canu! Ow!

Beth wnaeth Moses oedd troi ei gefn ar Wlad y Ciwcymbyrs ar orchymyn Duw ac arwain y genedl ymlaen trwy'r tywod gan ddilyn cyfarwyddiadau mynych Duw o ddydd i ddydd. Felly, pan awn ni nôl, bryd bynnag fydd hynny, peidiwn â bwrw golwg hiraethus ar y ddoe nad yw wedi bodoli ers degawdau! Gadewch i ni ddilyn beth ddywed Duw wrthym ni yn ei Air nawr, a siarad gydag Ef yn gyson, nawr. A gwrando ar ei gyfarwyddyd yn ddyddiol, nawr! Fel y dywedai un hen ddiakon gyda ni yn Ebeneser, Rhydaman gynt,

“Ymlaen mae Canaan.”

Einir Jones (Gol.)

Os garch gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

**Carn Inqli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT**

Neu ebost:

einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

---

## **Ffarwelio gyda Menna Jones, Rheolwraig Swyddfa UBC**

Gyda diwedd mis Chwefror yn agoshau, Mrs Menna Jones, Rheolwraig Swyddfa ar fin ymddeol, a ninnau yng nghanol cyfnod clo, roedd cryn ofid ymysg ei chydweithwyr yn Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru. Wrth reswm, roedd gofid ynghylch colli aelod gwerthfawr o'r staff, ond y gofid mwyaf oedd sut fyddai rhywun yn dweud ffarwel mewn modd haeddiannol i rywun ar ôl dros ugain mlynedd o wasanaeth, a phawb wedi cael eu cyfyngu i'w cartrefi? "Arhoswch Adref" oedd gorchymyn y Llywodraeth! Daeth un peth yn amlwg yn fuan yn y trefniadau – byddai rhaid i bopeth ddigwydd dros "Zoom".

Trefnwyd felly fod y staff yn dod at ei gilydd i ddweud ffarwel wrth Menna am ddau o'r gloch brynhawn Gwener, 26ain Chwefror 2021. Roedd llun hyfryd o Menna wedi cael ei dynnu y diwrnod cynt yn y swyddfa a rhoddwyd hwnnw fel cefndir rhithiol i bob aelod o staff fel bod chwech llun o Menna ar y sgrin - a Menna ei hun wrth gwrs!

Gan ddechrau gyda'r Parchg Judith Morris, yr Ysgrifenydd Cyffredinol, dygwyd cyfarchion i Menna gan bob aelod o staff yn nhrefn y wyddor. Roedd gan bob un ohonynt – Mrs Bonni Davies, Dr Christian Williams, Mrs Helen Wyn, Mr Nigel Vaughan a'r Parchg Simeon Baker – atgofion hyfryd i'w rhannu a theyrngedau haeddiannol i'w cyflwyno, gyda'r canlyniad i sawl deigr yn lifo yn ogystal â digon o chwerthin.

Heb yn wybod i Menna, roedd mwy wedi ei drefnu! Am dros awr o amser, yn dilyn cyflwyniadau'r cyd-weithwyr, ymunodd nifer o wahoddedigion yn 'y parti' gan gynnwys swyddogion cyfredol yr

Undeb, yr Arolygwyr, cadeiryddion pwyllgorau ac wrth reswm, rhai oedd wedi cydweithio gyda Menna. Yn eu mysg yr oedd y ddau Peter – y cyn Ysgrifenyddion Cyffredinol - y Parchedigion Peter Dewi Richards a Peter M Thomas. Roedd gan bob un deyrngedau hyfryd i'w talu i'r un a fu'n ffenest mor arbennig i UBC ac yn un a fu'n barod gyda'i harweiniad doeth a gofalus bob amser ar y ffôn.

Gofynnwyd i'r Parchg Peter Thomas lunio cerdd i Menna, i'w chyflwyno iddi yn ystod y sesiwn. Fframiwyd y gerdd, ac fe dderbyniodd Menna y pecyn hwnnw ac anrhegion eraill oddi wrth y staff a'r Undeb y bore hwnnw. Daeth y cyfarfod i ben wrth i Menna agor y gerdd a'r Parchg Peter Thomas yn ei darllen iddi.

Bu'n sesiwn ffarwél i'w gofio – ond wir, pan fydd y cyfyngiadau wedi codi a'r rheolau'n caniatâu, fe fydd y staff yn cyfarfod eto mae'n siŵr o gwmpas rhyw fwrdd bwyd yn rhywle, i godi gwydryn ac i dalu teyrnged i Mrs Menna Jones mewn steil.





## **Llawenydd a Thristwch yng Nglyn Nest**

### **Glyn Nest yn 50 oed**

Agorwyd cartref Glyn Nest yn swyddogol ar 26ain Medi 1970 ac o gwmpas yr un dyddiad yn 2020, y gobaith oedd cynnal diwrnod o ddathlu gan wahodd cyfeillion o bob cwr o Gymru i ymuno gyda'r cartref yn y llawenydd o gyrraedd y garreg filltir nodedig hon yn ei hanes.

Yn anffodus, oherwydd Covid-19, bu'n rhaid gohirio'r trefniadau. Er hynny, ceisiwyd gwneud y gorau o'r sefyllfa. Gwahoddwyd pedwar cynrychiolydd o'r enwad: Y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb; Mr David Peregrine, Llywydd cyfredol yr Undeb; Miss Eleri Lloyd Jones, Llywydd cyfredol Mudiad y Chwiorydd; a Mrs Bonni Davies, ysgrifennydd Cwmni Rheoli Glyn Nest, i ddwyn cyfarchion i'r deiliaid trwy gyfrwng y we. Diolchir i'r Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth yr Undeb, am y ffilmio a'r recordio ac am lwyddo i greu cyswllt â'r deiliaid.

Cafodd y Parchg Irfon Roberts, cadeirydd Pwyllgor Tŷ a Chwmni Rheoli Glyn Nest, y fraint o fod yn bresennol a thystio i werthfawrogiad y deiliaid o'r ffaith fod yr enwad yn eu cofio ac yn eu cynnal â'u gweddïau mewn adeg anodd yn eu hanes.



Yn dilyn y cyfarchion, dangoswyd wyth o luniau o'r diwrnod agoriadol gyda'r Parchg Irfon Roberts yn llwyddo i enwi rhai o blith y dyrfa enfawr oedd yn bresennol ar y diwrnod. Rhannodd hefyd rai atgofion o'i berthynas â Glyn Nest pan oedd yn weinidog ifanc yng Nghastell Newydd Emlyn.

Cyflwynwyd i'r deiliaid gyflenwad mawr o siocled rhoddedig gan Mr David Peregrine, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, un sy'n gyson hael i'r Cartref. Darllenwyd cyfarchiad ychwanegol oddi wrth Is-lywydd Mudiad y Chwirydd, sef Mrs Ruth Davies, Caerdydd, yn llongyfarch pawb yn ymwneud â Glyn Nest ar eu llwyddiant ac yn dymuno pen-blwydd hapus i'r Cartref. Cyflwynwyd i'r Cartref hefyd, ar ran y Parchg Irfon Roberts a'i briod Mair, gasgliad o englynion Mr Wyn Owens, Mynacholgddu, wedi eu fframio i gofio'r achlysur. Diweddwyd y cyfan drwy wrando datganiad ar y we o'r hen gân boblogaidd *Bless This House*.

Bu'n ddiwrnod chwerw-felys: chwerw gan y methwyd dathlu fel y dymunwyd; melys o sylweddoli fod y gwaith yn mynd yn ei flaen. Diolchir i aelodau'r pwyllgorau fu'n ymwneud â rhediad y cartref am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd.

## **Gofid y Covid**

Try llawenydd mawr y dathlu ym mis Medi, i dristwch mawr cyn diwedd y flwyddyn. Gyda 2020 yn dirwyn i'w therfyn, gorfodwyd i Gartref Glyn Nest wynebu'r sefyllfa fwyaf heriol a gofidus yn ei hanes erioed. Gwelwyd y cartref o fewn trwch blewyn i orfod cau'r drws. Gyda'r Covid-19 yn ei anterth ar y pryd ymysg deiliaid, Jayne Evans, Rheolwraig Glyn Nest, ynghyd â nifer o'i chydweithwyr, edrychai'n bur dywyll.

Yr awr dywyllaf yn ddiâu oedd noswyl Nadolig pan ddeallwyd fod bwriad i gau'r Cartref a symud y deiliaid drannoeth i ardal Llanelli. Bydd y cartref yn fythol ddyledus i Gyngor Sir Caerfyrddin am ddod i'r adwy ar yr unfed awr ar ddeg a chynnig benthyg, am gyfnod o fis, Reolwraig o un o'u cartrefi cyfagos, yn ogystal â Pherson Cyfrifol. Llwyddwyd, gyda chymorth ychwanegol Asiantaethau Gofal, ddod â'r sefyllfa dan reolaeth. Derbyniwyd cefnogaeth Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd, Swyddogion Sirol a Chynghorwyr lleol i'r

achos a diolchir iddynt am weithio yn y cefndir i ddwyn sylw i'r cyflwr enbydus ac ennyn cydymdeimlad rhai mewn sefyllfa i helpu.

Caniatawyd mis o ras i achub y sefyllfa. Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl i ddwylo diogel Jayne cyn pen y mis ac mae bellach nôl wrth ei gwaith, wedi ei hatgyfnerthu. Dychwelodd eraill o'r staff yn y cyfamser a chyflogwyd cynifer â saith o weithwyr yn ychwaneg yn y gobaiith i'r nifer brofi'n ddigonol pe digwydd i sefyllfa debyg fwrw'r cartref eto.

Bu farw pedwar o'r deiliaid o effeithiau Covid-19 a dau arall o achosion naturiol. Cydymdeimlir â'u teuluoedd yn fawr a diolchir iddynt am eu hamynedd a'u graslonrwydd. Ni chlywyd beio'r Cartref am yr hyn ddigwyddodd. Yn wir, derbyniwyd nifer o lythyron oddi wrth deuluoedd yn mynegi diolch am dynerwch gofal y staff o'u hanwyliaid.

Teg cydnabod waith caled holl aelodau'r Cwmni Rheoli, o dan arweiniad cadarn y cadeirydd y Parchg Irfon Roberts, swyddogion yr Undeb a Dr Carol Williams y Person Cyfrifol, dros y cyfnod anodd hwn a ymestynnodd dros wythnosau lawer. Gellir tystio i'r Cyfarwyddwyr ymroi'n llwyr i'w dyletswydd i'r Cartref.

Da yw gallu sicrhau cefnogwyr hael y cartref i'r sefyllfa wella oddi ar hynny a bod yr arwyddion yn fwy calonogol o lawer erbyn hyn.

Wrth derfynnu, gofynnir i holl chwiorydd Cymru am eich gweddïau ar ran y Cartref, yn enwedig dros y gweithwyr arwrol sy'n parhau i ddioddef o effeithiau hir dymor eu hafiechyd blin.

---

O bob ymladdwr dyma'r ddau sydd gryfaf—Amser ac Amynedd.

(Leo Tolstoy)

Mae Heddwch yn dechrau gyda gwên. (Y Fam Teresa)

Nid yr hyn rydych chi'n edrych arno, ond yr hyn rydych chi yn ei weld sy'n bwysig. ( Henry David Thoreau)

# **Miss Einwen Jones**

## **Teyrnged Mair a Bethan Jones**



**“Fy llinynnau a syrthiodd mewn**

**lleoedd hyfryd: y mae imi etifeddiaeth deg”**

Wedi oes o wasanaeth di-flino i Enwad y Bedyddwyr a’i dyffryn genedigol, yn dawel, ar fore Sul Ionawr 24ain bu farw Miss Einwen Jones, Rhydlafer, Glyn Ceiriog. Gyda ei hymadawriad mae talp o hanes wedi mynd ond trysorwn yr atgofion am gymeriad hynod a dylanwadol.

Fe’i ganwyd ar yr 20fed o Hydref, 1926 yn ferch i Hugh a Sarah Jones a’r fagwraeth grefyddol a diwyllianol ar yr aelwyd yn Rhydlafer a lywiodd ei bywyd. Yr oedd o linach nodedig – ei theulu a roddodd dir i godi Capel y Llwyn, un o gapeli hynaf Bedyddwyr Gogledd Cymru a hefyd y tir ar gyfer y Seion presenol. Bu aelwyd Rhydlafer yn croesawu gweinidogion o bell ac agos am flynyddoedd lawer.

Seion oedd canolbwynt bywyd Einwen a mawr fu ei gwasanaeth a’i dylanwad yma – bu’n ddiakon ers 1964 ac yn godwr canu. Meddai ar lais cyfoethog mezzo-soprano – yn wir yr oedd yn enillydd cenedlaethol am ganu unawdau. Roedd moliant yn rhan bwysig iawn o’r addoliad ac roedd pob mesur yn ddi-wahan yn cael ei ddyblu! Bu’n Ysgrifennydd, yn Drysorydd ac yn Bregethwr. Ei gweledigaeth hithau a Sydney Davies (aelod gwerthfawr arall o’r Eglwys a gollwyd yn ddiweddar) oedd i ysgogi sefydlu Eglwys Unedig Seion

Glyn Ceiriog yn y blynyddoedd diwethaf a dim ond yn yr wythnosau olaf yma roedd yn cefnogi'r gwaith mawr a wnaed ar yr adeilad er mwyn sicrhau'r dyfodol. Diolch bod y ddwy wedi byw i weld eu gweledigaeth yn cael ei wireddu.

Yn ei bywyd gwaith roedd gan Einwen swydd gyfrifol yn Swyddfa'r Llys yn Wrecsam. Defnyddiodd y sgiliau a ddatblygodd yn ei gwaith i ymgymryd â swyddi dirifedi mewn sawl maes. Yr oedd ei chyfraniad i Gymanfa Dinbych, Fflint a Meirion yn helaeth ac yn rhyfeddol. Roedd ganddi stôr o wybodaeth am y Gymanfa ac roedd yn barod i rannu hyn ac i gefnogi capeli. Daliodd nifer o swyddi – bu'n Ysgrifennydd y Gymanfa am dros 30 mlynedd, yn Ysgrifennydd y Gorfforaeth, Llywydd y Gymanfa ddwywaith, ac yn fwy diweddar yn Llywydd Anrhydeddus. Rhoddodd wasanaeth amhrisiadwy i'r Gymanfa.

Yr oedd hefyd yn flaenllaw efo'r Undeb. Ni feddyliai ddim am deithio lawr i Dŷ Ilston yn y Mercedes du i gyfarfodydd yr Undeb gan yn aml deithio yn ôl ac ymlaen mewn diwrnod. Gwasanaethodd ar amrywiol bwyllgorau gan gyfrannu a chefnogi'r enwad am gyfnod maith. Y peth mwyaf nodedig oedd iddi gael ei dewis yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1987, y ferch gyntaf i dderbyn yr anrhydedd yma. Un o uchafbwyntiau ei blwyddyn oedd cynrychioli'r Undeb yn Abaty Westminster yn y gwasanaeth arbennig a gynhaliwyd i ddathlu 400 mlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gan William Morgan. Pleser mawr iddi oedd cael ei thywys i eistedd ym mlaen yr Abaty i fwynhau y profiad unigryw yma.

Yr oedd yr iaith Gymraeg a diwylliant y wlad yn ganolog i'w bywyd hefyd a chefnogodd bopeth yn Nyffryn Ceiriog a oedd yn hyrwyddo y gwerthoedd yma. Bu'n Ysgrifennyddes Neuadd Goffa Ceiriog am flynyddoedd maith a chroesawodd grwpiau o ymwelwyr o bell ac agos gan eu tywys o gwmpas yr adeilad a rhannu hanes y Neuadd â hwy. Roedd ganddi stor o wybodaeth am hanes cyfoethog yr ardal a'i theuluoedd. Daliodd amrywiol swyddi pan ymwelodd Eisteddfod Talaith a Chadair Powys â'r Dyffryn dros y blynyddoedd ac roedd yn aelod o Orsedd Powys yn ogystal â chael ei derbyn i Orsedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 1988 yng Nghasnewydd. Roedd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn bwysig iawn iddi a

chefnogodd yn gyson, gan fwynhau yr arlwy amrywiol o gerddoriaeth yno. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cangen Dyffryn Ceiriog o Ferched y Wawr a hi oedd y Llywydd cyntaf. Cyflawnodd bob swydd â ddaliodd gyda graen ac urddas.

Derbyniodd yn hael o'i hetifeddiaeth a rhoddodd yn hael – gofalodd am eraill, yn deulu a ffrindiau gan ddangos caredigrwydd a chonsym dros eraill. Roedd bob amser yn barod i gefnogi'n ariannol ond hefyd efo'i hamser a'i galluoedd.

Wrth draddodi ei hanerchiad pan yn Lywydd yr Undeb soniodd Einwen am “Ymgeleddu'r Etifeddiaeth”. Etifeddodd draddodiad crefyddol hir ei chyndeidiau a theimlodd y cyfrifoldeb o fod yn eu llinach.

Diogelu'r etifeddiaeth Gristnogol a diwylliannol yma oedd ei nôd ar hyd ei bywyd maith a chyflawnodd hyn yn gydwybodol – roedd ganddi farn bendant a gweledigaeth ac enynnodd hyn barch ac edmygedd. Bydd colled fawr ar ei hôl - diolchwn am un a wasanaethodd ac a gyfrannodd mor helaeth. Cydymdeimlwn â'r teulu a'r ffrindiau i gyd yn eu profedigaeth.

---

## **Cyfnod Clo yn Llundain**

**Rhianwen Huws Roberts**

Cyfarchion o Lundain. Dwi yma ers 23ain o Hydref 2020. Mae'n ymddangos mor bell yn ôl. Dim ond bythefnos oeddwn i fod yma, yna daeth y cyfnod clo oherwydd Covid-19.

Yn Tooting mae fflat / cartref Dwynwen, ym mwrdeisdref Wandsworth, de orllewin Llundain. Mae'n ardal gosmopolitaidd. Siaredir nifer o ieithoedd yma gan y trigolion, ond o edrych ar fanylion yr ieithoedd a siaredir yma, Cymraeg ac nid Welsh yw'r un a restrir yn gyntaf, (yn ôl trefn y wyddor).

Tydw i ddim wedi bod mewn siop o gwbl. Mae'r neges yn cael ei danfon i'r fflat yn wythnosol, siopa Nadolig a phersonol yn cael ei wneud ar lein. Mae'n dda wrth y dechnoleg, Zoom, WhatsApp, txt, ebost a ffôn fach. Dyna sut 'dwi'n cadw mewn cyswllt â theulu a ffrindiau. Tymor yr Hydref oedd hi a'r dail yn newid eu lliw ac yn disgyn oddi ar y coed sydd ar y stryd. Erbyn canol Tachwedd roedd rhai o'r trigolion wedi dechrau rhoi torchau ar eu drysau a choed Nadolig yn eu ffenestri gyda goleuadau o gwmpas y ffenestri ac yn y gerddi bach.

Roedd un goeden Nadolig anferth y byddwn yn hoffi mynd i'w gweld. Roedd wedi ei lleoli yn ymyl Eglwys Anglicanaidd (oedd yn hysbysebu eu gwasanaethau ar Zoom), a chofgolofn i ddynodi safle hen ffynnon. Codwyd y gofgolofn gan breswylwyr Tooting yn 1823 i gofio lleoliad "the Parish Pump". Cafodd ei ddefnyddio hyd diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y goleuadau disglair yma yn llonni'r galon ar adeg oer a thywyll.

Erbyn hyn mae arwyddion y gwanwyn i'w gweld. Y rhain hefyd yn codi calon – blagur ar y coed, cynffonnau wŷn bach, saffrwn, eirlisiau, briallu ac ambell genhinen i'w gweld yn y gerddi bach neu mewn bocsys ffenest.

Dwi'n mynd allan i gerdded bob dydd gan geisio amrywio'r daith. Yn aml byddaf yn cerdded lawr drwy ardal a elwir yn Amen Corner. Mae sawl cornel o'r enw yma i'w cael. Un dehogliad o'r gornel yma yw y byddai nifer o eglwysi ar y safle cyn lledu'r ffordd. Gerllaw'r gornel mae Rectory Lane, St Boniface, a hen leiandy. Dywedir hefyd y byddai Byddin yr Iachawdwriaeth yn arfer canu ar y gornel benodol yma.

Dro arall af heibio Ysgol Feithrin ac i barc lle mae llwybrau hyfryd heibio i offer chwarae plant a chyrtau tennis. Eto mae'r plant bach sydd allan ar eu beiciau / tryciau neu'n canu'n hapus yn fodd i godi calon a dwi'n cyfrif fy mendithion.

Wrth fynd am dro un bore pwy oedd yn cerdded yn slei a llechwraidd ar ganol y ffordd ond llwynog. Mi es i mhoced i estyn y ffôn fach i gael llun ohono, ond na, roedd wedi diflannu – ac fel y dywed R Williams Parry yn ei soned i'r Llwynog, “digwyddodd, darfu megis seren wib”.

Bellach mi'r ydwi wedi cael brechiad cyntaf Covid-19 a theimlaf bod gobaith. Mi'r ydwi yn gwau blodau gobaith gyda chlwb gweu Merched y Wawr ar Zoom. Ar hyn o bryd mi rydym yn gwau Cennin Pedr i'w harddangos ar Fawrth Iaf.

Wedi dychwelyd i'r fflat ac eistedd yn y lolfa, mae dau ddarlun yn tynnu fy llygad. Un o'r Wyddfa yn drwch o eira gan John Morris a'r llall o'r anthem genedlaethol “Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi” gan Ogwyn Davies.



*Blodau Gobaith*

Ie wir, edrychaf ymlaen at ddod nôl atoch i gyd.

---

## **Beth Oedd Enw**

1. Beth oedd enw mam Iago a Ioan?
2. Beth oedd enw tad yng nhyfraith Caiaffas?
3. Beth oedd enw trydydd mab Adda as Efa?
4. Beth oedd enw tad Abraham?
5. Beth oedd enw Rhufeinig Môr Galilea?
6. Beth oedd enw gwraig ddrwg y brenin Ahab?
7. Beth oedd enw Rhaglaw Rhufeinig Jiwdea yn 33 Oed Crist?
8. Beth oedd enw'r wraig Iddewig ddaeth yn Gristion yn Philipi?
9. Beth oedd enw'r dref fechan lle cododd Iesu fab y wraig weddw yn fyw?

10. Beth oedd enw'r cardotyn â aeth i'r nefoedd yn nameg Iesu?
11. Beth oedd enw brenin Jiwdea pan anwyd Iesu?
12. Beth oedd enw gwraig Isaac?
13. Beth oedd enw'r frenhines yn yr Hen Destament a achubodd ei phobl rhag eu difodi?
14. Beth oedd enw'r ardd lle gweddiodd Iesu?
15. Beth oedd enw'r llyn gyda phum bwa colofnog lle gwelodd Iesu'r dyn cloff?
16. Beth oedd enw brenin cyntaf Israel?
17. Beth oedd enw ewyrth Marc?
18. Beth oedd enw brawd Pedr?
19. Beth oedd enw pedair afon Eden?
20. Beth oedd enw'r dref oedd yn gartref i Saccus?
21. Beth oedd enw'r mynydd lle glaniodd arch Noa?
22. Beth oedd enw'r ogof lle cuddiodd Dafydd rhag Saul?
23. Beth oedd enw merch yng nghyfraith Naomi, a hen nain/famgu Dafydd?
24. Beth oedd enw'r mynydd lle derbyniodd Moses y Deg Gorchymyn?
25. Beth oedd enw'r fan lle'r eisteddodd Peilat i ddedfrydu Iesu i farwolaeth?

*Atebion ar dudalen 19*

---

Allwch chi ddim cyffwrdd na gweld y pethau harddaf a'r pethau gorau yn y byd. Rhaid iddyn nhw gael eu teimlo yn y galon.

(Helen Keller)

Does dim gwahaniaeth am oedran—os nad ydych chi'n gaws!

(Luis Bunuel)



# **Fy Hoff Emyn**

**gan**

**Wendy Lewis**

Mae wedi bod braidd yn anodd i fi gyflawni'r dasg o gyflwyno fy hoff emyn i ddarllenwyr "Cwlwm", am y rheswm bod nifer o emynau dw i'n dwli arnyn nhw, yng nghyfrol "Caneuon Ffydd". Er gwybodaeth i chi, dyma rai o'r emynau sy' wedi dod yn agos i'r brig --"Os gofyn rhywun beth yw Duw" gan Azariah Shadrach (rhif 171, C Ffydd ), "O nefol addfwyn Oen sy'n llawer gwell na'r byd" – William Williams, (312 C Ff ), "Cerddwn ymlaen i'r yfory" – Peter M. Thomas (154 C Ff ) "O maddau i ni, Dad pob llwyth"- J. Dennis Jones (808 C Ff ) a "Tydi, O Dduw a beraist dy foliant ymhob iaith" – Cynan (833 C Ffydd ).

Fel organyddes, ag un sy'n cyfeilio tipyn, mae'r emyn-dôn yn bwysig i fi hefyd. Wrth reswm, y gair sy' bwysica' ag ail-beth yw'r dôn, ond mae'n hyfryd cael y geiriau a'r dôn i gyd-weddu'n union i'w gilydd. Ar ôl pwyso a mesur, a thipyn o grafu pen, dyma fi'n penderfynu o'r diwedd – a'r emyn sy' wedi dod i'r brig, ac yn rhoi fwyaf o wefr i mi bob tro gwnaf ei chwarae mewn oedfa, neu ei chlywed yn cael ei chanu yw - "Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr, heb un cydymaith ar hyd lwybrau'r llawr, am law fy Ngheidwad, y diolchaf i, a'i gafael ynof er nas gwelaf hi." (rhif 758 C. Ff ).

Awdur y geiriau yw John Roberts, a chawn olwg o'i ffydd anhygoel yn Nuw, â'r llaw anweledig yn "gafael ynof, er nas gwelaf hi."

Ganwyd John Roberts yn 1910 yn Llanfachreth, Sir Fôn, a magwyd ef yn ôl egwyddorion yr Hen Gorff. Yn dilyn ei addysg gynnar yn Ysgol Ffrwd Win, dilynodd gwrs clericyddol yng Nghaergybi, a bu'n gweithio am gyfnod mewn swyddfa yswiriant yn Wrecsam, ond roedd ei fryd ers ei ardegau, i fod yn bregethwr.

Ei brifathro, R Dewi Williams a'i harweiniodd i ymddiddori mewn llenyddiaeth, ac am weddill ei fywyd cafodd fri mawr a mwynhad aruthrol wrth ddarllen. Graddiodd ym Mhrifysgol Bangor, a chafodd

lawer o wahoddiadau i bregethu mewn Cymanfaoedd Pregethu gan dderbyn galwad i fod yn Weinidog ar Gapel Carneddi, Bethesda, Caernarfon.

Bu ei waith gweinidogaethol i gyd, tan ei ymddeoliad, yng Ngogledd Cymru, a daeth yn enwog fel pregethwr grymus a phoblogaidd, yn meddu ar lais cyfoethog. Daeth yn amlwg fel bardd drwy ennill Cadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen am gyfres o delynegion a cherddi eraill, (o dan feirniadaeth R Williams Parry) sy'n cynnwys englynion, sonedau ac emyn sef -- yr un 'dw i wedi'i ddewis.

Dywedai o hyd mai am ei bregethu y dymunai gael ei gofio, a bu'r dirywiad crefyddol yng Nghymru yn ystod chwarter canrif olaf ei fywyd, yn boen enbyd iddo. Bu farw yn Ysbyty Stanley, Caergybi yn 1984 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Eglwys Llanfwrog.

Cyfansoddwr yr emyn-dôn yw E. J. Hopkins (1818 - 1901) a anwyd yn Westminster, Llundain. Bu Edward John Hopkins yn cyfeilio ar yr organ mewn gwasanaethau yn Abaty Westminster yn 14 mlwydd oed a phenodwyd ef yn organydd parhaol yn Surrey, pan oedd yn 16 mlwydd oed. Hyfforddodd nifer o gorau, ynghyd â chyfansoddi tua 150 o emyn-donau, yn ogystal ag anthemau, siantau a darnau penodol ar gyfer yr organ. Caiff ei gofio'n benodol am gyfansoddi emyn-donau, yn cynnwys "Ellers" (545 C.Ff) .

Mae cerddoriaeth y dôn yn cychwyn gyda nodau'r soprano yn weddol isel a sefydlog, yna'n dechrau adeiladu a chwyddo i uchafbwynt tyner a phendant ar ddiwedd yr ail gymal, wrth symud o'r cyweirnod gwreiddiol i'r "dominant" bum nodyn yn uwch, cyn i'r nodau ostwng yn hyfryd eto, a diweddu gyda'r nodau isel. Mae'r geiriau yn cyd-weddu'n gyfforddus a naturiol gyda'r gerddoriaeth a'r harmoniau'n syml, swynol ac effeithiol.

I'r darllennydd, mae'r geiriau sy'n dechrau pob pennill, yn tueddu ar deimlad o bryder ac ansicrwydd, ond yn newid yn gyfangwbl yn y cwpled ola' i roi nawws pendant a diogel sy'n glo cadarn i bob un o'r pedwar pennill. Diolchwn i'n Ceidwad am ei ofal a'i gwmni ar hyd taith bywyd, ei dynerwch a'i gariad di-ddiwedd atom, gan wybod mewn sicrwydd bod Ei law'n ein cynnal ni, a'n harwain ni bob amser.

Caiff yr emyn ei chanu'n fynych mewn angladdau – ac - i fi, mae'n wir odidog, gyda'r briodas rhwng y gair a'r dôn, yn berffaith, yn cynnig bodlonrwydd a heddwch tawel, ag yn medru'm hudo i ryw arall fyd. Bendigedig!

---

### **Atebion “Beth oedd Enw?”**

1. Salome: 2. Annas : 3. Seth : 4. Terah : 5. Tiberias : 6. Jesebel :  
7. Pontius Peilat : 8. Lydia : 9. Nain : 10. Lasarus : 11. Herod :  
12. Rebecca : 13. Esther : 14. Gethsemane : 15. Bethesda/  
Bethzatha : 16. Saul : 17. Barnabas : 18. Andreas : 19. Gihon,  
Pison, Hidecel ac Iwffrates : 20. Jerico : 21. Ararat :  
22. Adulam : 23. Ruth : 24. Sinai/Horeb : 25. Gabbatha (Y Palmant)

---

## **Gweddi**

**gan**

**Sian Megan**

Wyt ti erioed wedi gweddio?

Beth? Fi ti'n feddwl? Gweddio, y busnes 'ma o bitran patran Ein Tad..and all that jazz?

Ddim cweit, ond mae hynny'n ddechrau. Wyt ti'n capelydda neu'n eglwysydda? Cyn y pandemig rwy'n feddwl. Wyt ti'n mynd ar Zoom a Youtube nawr? Da iawn. Ond wyt ti'n siarad gyda Duw?

O jawch, dere mlân nawr – that's for weirdos, saddos, 'sdim byd arall gyda nhw achan.

Hollol! S'dim neb gyda nhw i droi ato. Rhywun sy'n gallu actually cyffwrdd â'r raw nerve. Ffordd posh fydde dweud cyrraedd at ddyfnder dy enaid.

O come off it, fi wedi cael addysg, rwy'n ddiwylliedig, sai'n brin o

arian, jobyn bach ddech e – sdim ishe mynd yn rhy bersonol nawr. Ta beth ma Anti Siân yn gweud un fach drosta’i pan mae’n cofio. That’ll do me fine!

Mmm..Lucky duck. Achos ’na beth gês i pan o’n i’n wynebu llawdriniaeth canser anferth. Llwythi a llwythi o bobl yn gweddïo, dros Gymru gyfan a tu fâs. O ie, Lucky duck go iawn. Criwiau bach yn cwrdd mewn tai yn Porth Tywyn, eglwys y Lighthouse *en masse*, unigolion gartre yn sir Gâr, sir Fôn, sir Benfro, Caerdydd, Llundain. A gweddïais i hefyd, full pelt, am bod fi’n credu yn fy Ngwardwrs ers y diwrnod hwnnw daeth e’n real yn y mywyd i dros 30 mlynedd yn ôl yn Porthaethwy.....

### **Ysbyty Treforus Mai 17, 2018**

Edrych trwy’r ffenest – alla’i ddim wynebu hyn, fi ishe mynd gartre, ’sneb ’ma gyda fi. O Dduw, plis llanw fi â’r Ysbryd Glân....’A dyma’r nyrs yn cyrraedd i hebrwng fi i lawr y corridor i’r theatr.

Diolch i Ti o Dduw am wrando.

---

## **Oedfa Glyn Nest yn Y Tabernacl, Caerdydd**

**gan**

**Ruth Davies**

Bore Sul, 14eg Chwefror trefnwyd gwasanaeth yn Y Tabernacl, Caerdydd, ar Zoom, i godi ymwybyddiaeth o Gartref Gofal, Glyn Nest. Cais ddaeth i Calan McGreevy a Bill a Ruth Davies i gynnal yr oedfa. Ar ôl tipyn o drafod penderfynwyd seilio’r oedfa ar y thema ‘Gofal’ a chanolbwyntio yn arbennig ar Glyn Nest, Cartref Gofal y Bedyddwyr yng Nghastellnewydd Emlyn. Ym mis Medi y llynedd dathlodd y Cartref ei ben-blwydd yn hanner cant oed, ond oherwydd y pandemig ni chafwyd dathliad mawr fel oedd y bwriad ond nodwyd yr achlysur yn unig am y tro.

Dros flwyddyn yn ôl paratowyd gwasanaeth gan y Parchedig Irfon Roberts i dynnu sylw'r eglwysi am y Cartref, gan ein hysgogi hefyd i gofio am deuluoedd, ffrindiau, cymdogion a chyd-aelodau sydd bellach wedi ymgartrefu mewn cartrefi gofal preswyl. Yn ogystal mae'n gyfle hefyd i ddiolch am y gwaith a gyflawnir gan y staff a gwirfoddolwyr sy'n sicrhau fod y deiliaid yn derbyn y gofal gorau posibl. Oherwydd sefyllfa'r pandemig roedd yn gyfle i ddiolch am y rheini sy'n gofalu am ddioddefwyr Covid-19 mewn ysbytai, cartrefi gofal ac yn eu cartrefi.

Yn ystod yr oedfa, adroddwyd yn gryno hanes sefydlu'r Cartref. Brwydr grŵp o ferched oedd y fenter ar y cychwyn o gael Cartref â naw Gristnogol iddo ar gyfer Bedyddwyr oedrannus ac eiddil. Bu ugain mlynedd o waith caled cyn y llwyddwyd i agor y cartref yn 1970. Roedd Mudiad y Chwiorydd yn gefn mawr i'r Cartref o'r dechrau ac mae'r Mudiad wedi cyfrannu'n helaeth at gyflenwi pob math o bethau i Glyn Nest. Tystia deiliaid y Cartref i'r gofal arbennig y cânt yno, ac yn ôl y Parchedig Irfon Roberts, Cadeirydd gweithgar y Pwyllgor Gwaith, 'Credir yn sicr fod llaw Duw ar y Cartref – iddo ei fendithio'n helaeth dros y blynyddoedd.'

Defnyddiwyd tri emyn o'r gwasanaeth gwreiddiol:

Ti fu gynt yn gwella'r cleifion,  
Feddyg da,  
dan eu pla  
trugarha wrth ddynion.'

*Emyn 823 yn 'Caneuon Ffydd.'*

Yna emyn o waith y Parchedig Arwel Thomas, a fu ei hun yn un o'r deiliaid :

Arglwydd, buost Ti yn noddfa  
I dy blant o oes i oes,'

Hefyd emyn o waith Y Parchedig T.R.Jones,

'Diolchwn yma ger dy fron  
Am rai a roes i'r fenter hon  
Eu hymgysegriad llwyr a maith  
Bendithia di, O Dad, eu gwaith.'

Y darlleniad a ddewiswyd oedd Mathew 25, adnodau 31 – 46 a chanolbwyntiwyd ar adnod 40 yn yr anerchiad gan Bill Davies,

‘Yn wir, rwy’n dweud wrthy, yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o’r lleiaf o’r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.’

Yn yr anerchiad fe’n hatgoffwyd o’r hyn a ddywedodd Iago yn ei Epistol,

‘Gyfeillion, pa les yw i rywun ddweud fod ganddo ffydd ac yntau heb weithredoedd?’

Clywyd yn barod am weledigaeth nifer o ferched a’u dycnwch yn eu gyrru ymlaen i sefydlu Glyn Nest. Enghraifft berffaith o ffydd ar waith ac yn esiampl i bob un ohonom o beth sy’n bosibl pan ddaw pobl o’r un anian at ei gilydd i gyflawni rhywbeth o bwys. Diweddwyd yr anerchiad gyda’r adnod:

‘Llewyrched felly eich goleuni gerbron dynion, fel y gwelant eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddant eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.’

Defnyddiwyd gweddi a ysgrifennwyd gan Y Parchedig John Rice Rowlands a bu i’r weddi hon ysbrydoli un o’r aelodau i ofyn am gopi ohoni.

Cafwyd ymatebion annisgwyl gan aelodau’r Tabernacl, nifer ohonynt â chysylltiadau personol â’r Cartref. Adroddodd Mari Rogers fod ei mam wedi bod yn weithredol gyda chodi arian ar gyfer y Cartref, a chofiodd fod y Parchedig Arwel Thomas wedi bod yn weinidog ar y teulu yn ystod ei gyfnod yn Ynystawe. Tystiodd Mair Long iddi hi a’i ffrindiau o gapel Noddfa, Llanbedr Pont Steffan fynd i’r Cartref i gynnal adloniant yno. Cofiai Gwenllian Edwards, ei thad, Y Parchedig Dafydd Henry Edwards, yn gadeirydd y Pwyllgor Gwaith am flynyddoedd, a’i mam, Enid Edwards, yn gweithio nifer o shifftiau nos yn y Cartref. Roedd gan Helen Jones hefyd atgofion melys am rai a fu ac sydd yn ddeiliaid yn y Cartref yn ogystal â rhai o’r gwirfoddolwyr.

Cytunwyd y byddwn fel eglwys yn trefnu casgliad arbennig neu weithgaredd i godi arian i’r Cartref pan fydd y sefyllfa gyffredinol yn caniatau.

# **O Batagonia i Langyfelach**

**gan**

**Einir Jones**

Bob blwyddyn – rydwi wedi gofyn caniatad gan yr Ysgrifennydd sylwer – fe fyddwn ni yn arfer mynd i gasglu llwyth o'r briallu (i wneud eli at yr Eryr) sy'n tyfu'n drwch ym mynwent yr hen gapel diddorol hwnnw, Salem, Llangyfelach. Yno mae gwreiddiau John.

Yno mae aelodau o'r teulu dros y cenedlaethau yn gorwedd. ac fe fyddwn ni yn mynd yno'n rheolaidd i roi blodau ar fedd rhieni John ac fe fyddwn yn edrych ar feddau ei ewythrod a'u teuloedd a'i dadcu a'i famgu Craigeffnparc. Ond y tro hwn, ac roedd hi cyn Sul y Blodau, fe fum yn chwilio am fedd arall – un nad oedd yn perthyn dim, ond a oedd o ddiddordeb mawr i mi.

Siarad ar y ffôn wnes i ychydig cyn hynny gydag Ysgrifenyddes y Pwlpud yn Salem, Meirwen Hyett, ynghylch cyhoeddiad oedd gen i fod gyda nhw ac fe ddywedodd wrthyf yn ystod ein sgwrs ei bod wedi bod wrthi beth amser yn ôl yn glanhau parthau pellaf rhan hynaf y fywent ac yn tynnu iorwg oddi ar hen feddau. Ac yno, dan y gorchudd gwyrdd, ar faen tal o garreg grud a gwenithfaen, fedr a hanner o uchder, roedd y geiriau diddorol a cherfiedig a ganlyn:

**D.M. DAVIES (LATE OF PATAGONIA) AGE 16. DIED 27 FEB  
1893**

**SARAH DAVIES OF GORSEINON AGE 64 DIED 22 APRIL  
1911**

**THOMAS GEORGE DAVIES AGE 78 DIED 18 MARCH 1922**

Pwy, tybed, oedd y D.M. Davies yma a beth oedd yr hanes am Batagonia? Aeth Meirwen a'i gŵr ati i chwilio a dyma ffrwyth ei hymchwil. Pwy oedd y llanc ifanc yma a fu farw mor gynnar a thybed a oedd perthynas rhwng y tri a enwyd ar y maen? Fe ddechreuwn gyda'r enw gwaelod.

Ganwyd Thomas George Davies tua 1844 yn y Rhath, Caerdydd ac fe briododd tua 1870 â Sarah oedd yn amlwg â chysylltiadau gyda Llangyfelach.

Yn ôl sensws 1881 roedd Thomas George oedd bryd hynny yn 37 mlwydd oed, yn labro yn y gwaith dur ac yn briod â Sarah, 33 oed. Roedden nhw'n byw yn New Road Waunarlwydd. Bryd hwnnw roedd David M. yn 4 oed. Mae'n bosib mai ef oedd eu hunig blentyn. Roedd wedi ei eni yn 1877 yn Llangyfelach, yn hen gartref ei fam mae'n bosib yn ôl arferiad y pryd.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn sensws 1891 does dim sôn am yr un aelod o'r teulu sy'n dangos mae'n sicr eu bod wedi gadael Prydain am rywle arall yn ystod y cyfnod hwn, rhywbryd o 1881-1893.

Does dim modd bod yn berffaith sicr pryd aethon nhw oherwydd does dim rhestrau o deithwyr i'r Ariannyn ar gael fel ag y sydd i'r Unol Daleithiau yn yr un cyfnod. Ond mae'r nodyn (*late of Patagonia*) ar y garreg fedd o bosib yn esbonio ble bu'r teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn sensws 1901 mae'r wybodaeth i'w weld bod y teulu wedi dychwelyd i Gymru a'u bod erbyn hynny yn byw yn 29 Lime Street, Gorseinon. Bellach mae merch sydd wedi ei mabwysiadu ganddynt hefyd. Mae'n unarddeg oed a'i henw yw Margaret J. Thomas. Erbyn sensws Mawrth 1911 mae Thomas George a Sarah yn byw ar eu pennau eu hunain yn 2, *Grove Street, Gorseinon* ac mae Sarah yn marw yn yr un flwyddyn ar Ebrill 22ain. Bu yntau, Thomas, fyw yn weddw am un mlynedd ar ddeg wedyn cyn ymuno â hi ym mynwent Salem, Llangyfelach.

Ond i ddod yn ôl at yr enw cyntaf ar y maen, David Morgan Davies oedd yn 16 oed. Bu farw ym mis Chwefror yn 1893 yn dilyn damwain drist yn ngwaith Glo Mynydd Sterry, Gorseinon.

O ddarllen nodiadau'r cwest am y digwyddiad fe ddeallir bod David yn gweithio fel *Billy Boy* – sef un fyddai'n symud glo mân i'r dramiau ac yn galw allan beth oedd y pwysau. Gwaith i fechgyn ifanc gan amlaf oedd hwn, ac roedd yn waith trwm a chaled.



Ar Ionawr 23ain, roedd yn gweithio ei *shift* arferol ond fe ddigwyddodd rhywbeth gwael iddo am 11 y noson honno. Rhaid iddo gael ei wasgu rhwng y dram a'r peiriant pwysu oherwydd roedd ganddo anafiadau difrifol i'w gorff a'i ben. Aed ag ef adref a galwyd y meddyg – Dr Trafford Mitchell - a'i harchwiliodd.

Bu farw bedwar diwrnod yn ddiweddarach yn ei gartref o niweidiau i'w benglog a'i ymennydd ac hefyd i'w asennau. *Accidental Death* oedd penderfyniad y rheithgor a'r cwest a gynhaliwyd y *Station Inn*, Gorseinon dan arweiniad y Crwner, Mr Edward Strick ac mae'r hanes trist yn ymddangos ym mhapur newyddion y Cambrian.

Aeth dros ganrif heibio ers y digwyddiadau a gofnodir ac fe fydd yn ganrif lawn ers marwolaeth Thomas George mis Mawrth nesaf. Pwy wŷyr pa hanes sydd wedi ei guddio gan y garreg a guddiwyd gan yr iorwg. Hanes trist iawn ydyw beth bynnag. Ond mae yno gysylltiadau â diwydiant ac â'r Ariannyn oedd yn ddigon pwysig i deulu David Morgan George eu nodi ar ei garreg fedd yng nghornel bellaf y fynwent dawel, lle tyf y briallu'n drwch o oleuni melyn bob gwanwyn.

---

## **Barddoniaeth**

### **Cerddi Betty Jones**

#### Salm 65

Mae jwg o Gennin melyn  
Yn olau i'r gaeaf hir  
Er bod yr hin yn arw  
A'r haf heb ddod i'r tir.

Ond blagur brau a thyfiant  
Mewn gerddi a fu'n llwm  
Sy'n rhoi arwyddion gobaith.  
Daw gwanwyn nôl i'r cwm.

Mae'r greadigaeth gyfan  
Yn troi at lygad haul  
A'r hyder y daw deffro  
A'r gwyrdd yn ôl yn ddail.

A chofiwn Fawrth y cyntaf,  
Ein nawddsant Dewi Sant  
A rannodd yr efengyl  
A gobaith Duw i'w blant.

Dilynwn ffyrdd yr Iesu  
A'i obaith i'n bywhau  
Gan gofio ffydd ein nawddant  
A'i nerth i'n cadarnhau.

*Chwefror 2021*

## Ffydd, Gobaith, Cariad

Yr Haf ddaeth atom, eto  
Gwahanol iawn yw'r dydd.  
Dim trip i'r môr, dim teithio  
Mewn trê'n na char yn rhydd.  
Mae'r parc a'r hewl yn dawel  
S'dim pobl yn y fro  
S'dim paratoi at unpeth  
Na chân i godi'r to.

Gweld teulu sydd yn anodd  
Ymweld â ffrindiau? Na!  
Newidiwyd gwedd cartrefi  
Pan darodd hyn o bla.  
Pob peth o'n cylch yn newid,  
Rhaid dysgu o ddydd i ddydd,  
Ond llawer caredigrwydd  
A gaed gan bobl ffydd.

Fe welsom er gofidiau  
A dagrau, gariad mawr.  
Dyfodol sy'n ansicr  
A phethau'n anodd nawr.  
Ond fu byth nos heb seren  
Na bore heb godiad haul  
A gwawr sy'n dilyn machlud  
Yn ddyddiol a di-ffael.

Pwy sydd yn trefnu popeth?  
Pwy bwyntia'r ffordd ymlaen?  
Tad Nefol sy'n gofalu  
Fu a'i waed ar bren yn staen.  
Ac Ef sy'n rhoi arweiniad,  
Ei ddiogelwch gawn,  
Â'i law bydd eto'n cadw  
Â grym ei gariad llawn

# Wele yr Wyf yn Sefyll wrth y Drws

## Datguddiad 3, 20

Fe gaewyd drws y capel  
Dim gweddi mwy, dim cân.  
Addoliad a ddiflannodd  
A lludw mwy yw'r tân.

Ni'n arfer gyda'r Clwmglo  
Ysgolion a Swyddfeydd  
A'u drysau oll yng nghaead,  
Distawrwydd ar rodfeydd.

Dim coffi gyda ffrindiau,  
Dim siopa yn y dre.  
A neges ffôn yn gyswllt.  
Mor unig yw y lle.

Mae gair yn codi calon  
Ond nid cyffyrddiad yw.  
Tu ôl i ddrws y capel  
Gadawyd gofal Duw?

Rhyw ddydd fe awn i'r capel  
Pan fydd hi'n saff i fynd.  
Ond Duw ein Tad sy'n aros  
Trwy'r cyfan fel hen ffrind.

Mae Gweddi ac Addoliad  
Yn dal ar gael trwy Ffydd  
All Clwmglo ddim cloi'r Iesu,  
Fe ddaeth o fedd yn rhydd.

A phan ddown at ein gilydd  
Bydd hedd ac esmwythad  
A chariad Duw yn para  
A chroeso gan ein Tad.

*Mehefin 30ain, 2020*

# Browniaid!

Dyma rysait fach hawdd iawn ond hyfryd y tu hwnt. Fyddwn i ddim yn ei hargymell i Ddiabetics cofiwch – ac i'r gweddill ohonom dim ond un darn ar y tro ddwedwn i a hynny gyda hufen iâ os byddech chi ffansi pwdin blasus.

Mewn peiriant cymysgu (Bzzd) dodwch:

- 10 owns menyn
- 13 owns o siwgwr
- 4 wy
- 3 owns powdwr coco
- 4 owns Blawd Codi



<http://www.natalieshealth.com>

Bzzd nes bod y cyfan yn gymysg

(gallwch ychwanegu 4 owns o ddarnau siocled tywyll fan yma os hoffwch chi – ond wnes i ddim ac roedd yn felys iawn beth bynnag!)

Tun 10 modfedd x 6 modfedd wedi ei leinio gyda papur menyn a'i iro yn dda.

160 gradd am 40-45 munud.

Am y deg munud diwethaf dodwch ffoil ar y top rhag i'r peth losgi.

Torrwch yn 24 o ddarnau bach. HYFRYD ond peidiwch mynd yn agos at dafol ymhen yr wythnos!



# **Adroddiad yr Ysgrifennydd**

Y Chw. Bonni Davies

**Cwlwm** - Ychydig iawn y dychmygwyd flwyddyn yn ôl wrth benderfynu ein bod yn paratoi Cwlwm mis Mai 2020 ar gyfer gwefan Undeb Bedyddwyr Cymru ac i'w hafnon ar e-byst, y byddem yn parhau i wneud yr un fath ar gyfer rhifyn Mai 2021. Wedi gweld effeithiau'r pandemig yn gwella ychydig dros gyfnod yr Hydref llynedd, wele don ac ergyd arall yn ein bwrw cyn y Nadolig. Gwelsom felly ddechrau ar gyfnod clo arall – cyfnod nad ydym eto wedi ein rhyddhau'n gyfangwbl o'i chyfyngiadau.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r tri rhifyn cyfnod clo – Mai a Medi 2020 a Mai 2021. Diolch arbennig iawn i'r Golygydd Einir Jones am ei gwaith a'i brwdfrydedd. Rydym yn parhau i obeithio y gellid argraffu'r tri rhifyn ar gyfer y rhai fydd eu hangen, pan ddaw'r sefyllfa'n well. Y broblem fwyaf tra fod y sefyllfa hon yn parhau, yw'r cyfle i ddsbarthu dros 400 o rifynnau'n ddiogel.

**Pwyllgorau** – Wrth reswm, nid ydym wedi llwyddo i gyfarfod ar gyfer un pwyllgor oddi ar Mawrth 2020 a buom yn ffodus iawn i gael hwnnw jwst cyn y cyfnod clo cyntaf. Mae'r cofnodion wedi mynd allan a chadwyd cysylltiad drwy e-bost neu ffôn. Yn dilyn arolwg bach ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwaith, ystyrir y posibilwydd o allu cyfarfod ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Gorffennaf – os nad yn y cnawd, yna'n sicr drwy gyfrwng zoom. Daeth awgrym hefyd y gallem gynnal y cyfarfod hwnnw ym mis Medi. O dan yr amgylchiadau presennol, ni ellir dweud i sicrwydd, ond fe gedwir mewn cysylltiad gydag aelodau'r ddau bwyllgor gan roi gwybod beth fydd y penderfyniad terfynol. Mewn cyfnod fel yma, mae'n amhosibl trefnu misoedd ymlaen llaw.

Trist oedd rhannu'r newyddion ar ddechrau'r flwyddyn am farwolaeth un o aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chyn-lywydd y Mudiad, y ddiweddar Einwen Jones. Cydymdeimlir hefyd â nifer o'r aelodau a gollodd anwyliaid yn ystod y flwyddyn.

**Cyfarfodydd Blynyddol 2021** – Ni ellir dweud ychwaith a fydd modd mynd i'r brifddinas ar 16eg Medi ar gyfer y cyfarfodydd i

ddyrchafu Ruth Davies yn Llywydd Cenedlaethol y Mudiad. Eto, mewn arolwg bach ymysg aelodau'r pwyllgor, roedd marc cwestiwn mawr o gwmpas hyn, yn fwyaf arbennig am fod sôn cryf am don arall eto yn yr Hydref ac am fod yna rai a fyddai'n parhau'n nerfus ynghylch ymgasglu mewn tyrfa. Ar hyn o bryd ni fyddai'r cynfyngiadau parthed addoldai yn caniatáu rhif mawr o bobl beth bynnag. Gyda'r llywydd cyfredol yn ddigon parod i barhau yn ei swydd, gellid yn hawdd ei ohirio am flwyddyn arall. Un ffordd neu'r llall, fe gewch wybod beth fydd yn digwydd.

**Glyn Nest** - Mae'n siŵr i chi glywed am ddatliad tawel y cartref yn 50 oed ac am ofid mawr Glyn Nest dros gyfnod y Nadolig pan sleifiodd yr hen pandemig dieflig i'r cartref gan effeithio staff a deiliaid. Ceir hanes y ddau yn y rhifyn hwn. Bellach, mae'r cartref yn rhedeg yn esmwyth unwaith eto, ond byddent yn ddiolchgar am eich gweddïau cyson.

**Dosbarthu Rhoddion** - Anfonwyd rhodd o £1,500 i Gartref Glyn Nest yn ôl penderfyniad y Pwyllgor Cyffredinol i gyflwyno'r swm cyfan i'r cartref ym mlwyddyn ei phen-blwydd arbennig. Fel arfer, byddai BMS wedi derbyn cyfran o'r swm.

**Swyddogion** – Atgoffir pawb mai tro chwirydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion fyddai ethol yr is-lywydd nesaf. Rydym hefyd yn parhau i chwilio am Is-ysgrifennydd. Byddai'n braf derbyn enwau neu wirfoddolwr erbyn mis Gorffennaf. Byddem yn falch i glywed oddi wrthyich naill ai trwy e-bost ([bonniletitia@gmail.com](mailto:bonniletitia@gmail.com)) neu ar 01239 820333.

**Prosiect nesaf y Mudiad** – Atgoffir pawb hefyd y dewiswyd 'Gofal' fel thema'r Prosiect nesaf. Gall y thema gynnwys gofal yn ein cymunedau (banc bwyd yn enghraifft), gofal am y greadigaeth, gofal am y blaned ac yn y blaen. Gall gynnwys gwasanaethau cyflawn; deunydd addoliad; gweddïau; cerddi neu gyflwyniadau pwyntpŵer. Fel o'r blaen, gofynnir i bob Cymanfa fod yn gyfrifol am un agwedd o'r thema. Os oes gan ryw unigolyn unrhywbeth a fyddai'n addas ar gyfer y prosiect, fe fyddai'r ysgrifennydd yn falch i glywed oddi wrthyich. Derbyniwyd eisoes un oedfa gyfan a diolchir amdani.

**Gwau a gwnïo** - Atgoffir pawb bod yr ymgyrchoedd yn parhau ac felly os nad ydych eto wedi bod yn gwau neu wnïo, yna ewch ati nawr ar fyrder. Mae'r patrymau a mwy o wybodaeth ar gael gan yr ysgrifennydd.

**Aelodaeth o'r Mudiad** - Anfonwyd ffurflenni ymuno â Mudiad y Chwiorydd allan llynedd yn gynnar yn Ionawr yn ôl yr arfer a phawb heb yr un syniad beth oedd rownd y gornel inni. Oedais cyn eu hanfon allan eleni am ein bod ynghanol y Trydydd cyfnod clo mewn llai na blwyddyn ac iddi fod yn anhebygol iawn y byddai eglwysi'n agor eu drysau, Gyda'r brechlyn wedi dod i hau ychydig o obaith yn y tir, mentrais wedyn eu hanfon allan a da dweud fod nifer dda wedi ymateb yn barod.

Er na fu modd inni gyfarfod llynedd o gwbl, y gobaith oedd fod aelodau'r Mudiad wedi cael bendith wrth gadw mewn cysylltiad drwy'r ddau rifyn o'r Cwllwm electronig a ellir eu cael ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru ac o'r Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd a anfonwyd allan i bawb. Braf iawn gwybod, er nad ydym yn gallu ymuno yn y cnawd, ein bod yn un fel rhan o deulu mawr o chwiorydd ar draws Cymru gyfan.

**Dydd Gweddi** - Diolchir i'r Parchg Jill Tomos am baratoi oedfa ar ein cyfer yn 2020 er na fu modd ei chynnal yn y cnawd. Derbyniodd pob eglwys gopi drwy'r post ar gyfer myfyrdod preifat a chynhaliwyd sawl oedfa dros zoom. Diolchir i'r rhai a drefnodd y cyfarfodydd zoom a diolchir yn arbennig i Jill am gytuno i addasu a chyfieithu'r Dydd Gweddi eleni eto. Gobeithir, os na fyddwn yn gallu uno mewn addoliad, y byddwn unwaith eto'n gallu cynnal oedfaon trwy gyfrwng zoom. Thema eleni yw 'Bywyd Dewr', gan ganolbwyntio ar Hebreaid 13, adnod 6: "Am hynny dywedwn ninnau'n hyderus, 'Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr ac nid ofnaf.'"

Teimlaf yn hyderus y gall aelodau Mudiad y Chwiorydd ddweud 'Amen' i hynny.

